# Cofnodion y CBC wedi'u cadarnhau
# Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO)
# 02 Mehefin 2025 am 13:30 o'r gloch
# Wyneb yn wyneb yn Charnwood ac ar Microsoft Teams

**Aelodau:**

| | | |
|---|---|---|
| Susan Elsmore (Cadeirydd) | (SE) | Cadeirydd QSO ac Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Teams) |
| Shameen Nawaz | (SN) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru |
| Mandy Rayani | (MR) | Is-gadeirydd Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO) ac Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru |
| Paul Worthington | (PW) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Teams) |

**Yn Bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Leanne Amos | (LA) | Cydlynydd Busnes, Ansawdd, CBC GIG Cymru |
| Carole Bell | (CB) | Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd, CBC GIG Cymru |
| Adrian Clarke | (AC) | Cyfarwyddwr Comisiynu Dros Dro ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed, CBC GIG Cymru |
| Kirsty John | (KJ) | Arweinydd Ansawdd, CBC GIG Cymru |
| Phil Kloer | (PK) | Prif Weithredwr, BIP Hywel Dda (Teams) |
| Jacqui Maunder | (JM) | Ysgrifennydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Corfforaethol, CBC GIG Cymru (Teams) |
| Sarah McMillan | (SM) | Nyrs Arweiniol Genedlaethol, Rhwydwaith Arennau Cymru [WKN] (Teams - hyd at ddiwedd Eitem 2.1) |
| Rhodri Pyart | (RP) | Arweinydd Ansawdd WKN, Arenegwr Meddygol Ymgynghorol BIP Caerdydd a'r Fro, (Teams - hyd at ddiwedd Eitem 2.1) |
| Adele Roberts | (AR) | Pennaeth Ansawdd a Gofal Cleifion, CBC GIG Cymru |
| Andy Swinburn | (AS) | Cyfarwyddwr Parafeddygaeth, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru [WAST] (Teams – eitemau 3.1 a 3.2) |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans a 111, CBC GIG Cymru (Teams) |
| Melanie Wilkey | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol, CBC GIG Cymru |
| Liam Williams | (LW) | Cyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Teams – eitemau 3.1 a 3.2) |

**Yn Arsylwi:**

| | | |
|---|---|---|
| Penny Letchford | (PL) | Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt ar gyfer Iechyd Meddwl, CBC GIG Cymru |
| Leanne Hawker | (LH) | Arweinydd Partneriaid mewn Gofal Iechyd, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Teams – eitem 3.1) |

CADARNHAOL

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| Iolo Doull | (ID) | Cyfarwyddwr Meddygol, CBC GIG Cymru |
| Angela Mutlow | (AM) | Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol, Llais |
| Helen Tyler | (HT) | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, CBC GIG Cymru |

**Cofnodion:**

| | | |
|---|---|---|
| Karla Williams | (KW) | Swyddog Risg a Sicrwydd, CBC GIG Cymru |

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 o'r gloch.

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| QSO25/038 | **1.1 Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd Susan Elsmore (SE), Cadeirydd y QSO, bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau.<br><br>Cynhaliwyd y cyfarfod ar Microsoft Teams ac wyneb yn wyneb, a **nodwyd** bod cworwm wedi'i gyflawni. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cyfarfod gael ei recordio at ddibenion gweinyddol. |
| QSO25/039 | **1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>**Nodwyd** yr ymddiheuriadau fel yr uchod. |
| QSO25/040 | **1.3 Datganiad o Fuddiannau**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiannau. |
| QSO25/041 | **1.4 Cofnodion y Cyfarfod Etifeddol a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2025 a Materion yn Codi**<br>Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2025 wedi cael eu hadolygu a'u **cymeradwyo** fel cofnod gwir a chywir o'r trafodaethau.<br><br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion i'w trafod. |
| QSO25/042 | **1.5 Cofnod Gweithredu**<br>Derbyniwyd y cofnod gweithredu, a **chytunodd** yr aelodau i gau'r camau gweithredu a gwblhawyd:<br>• **QSO25/009 – Cofrestr Risg y Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd – Risgiau a Neilltuwyd i'r Is-bwyllgor QSO** – Adborth Risg 53 wedi'i ddiweddaru o dan eitem 5.4.<br>• **QSO25/010 - Adroddiad gan Gyfarwyddwr Comisiynu'r Gwasanaethau Ambiwlans ac 111** - Toriadau Data GDPR wedi'u cynnwys yn yr adroddiad o dan eitem 5.2.<br>• **QSO25/011 - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored** |

CADARNHAOL

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | **i Niwed -** diweddariad ar fater tawelu cyflym wedi'i gynnwys yn yr adroddiad o dan eitem 5.3.<br><br>**Nododd** yr aelodau fod trafod y cynnydd ynghylch cam gweithredu agored QSO25/009 a oedd yn tynnu sylw at dderbynioldeb risg, wedi'i drefnu ar gyfer gweithdy strategaeth mis Rhagfyr 2025. |
| QSO25/043 | **2.1 Rhwydwaith Arennau Cymru**<br>Derbyniodd yr aelodau adroddiad Rhwydwaith Arennau Cymru (WKN) a oedd yn rhoi crynodeb o'r materion ansawdd a diogelwch cleifion cyfredol o fewn y gwasanaethau a gomisiynwyd gan WKN.<br><br>Tynnodd Sarah McMillian (SM) Nyrs Arweiniol WKN sylw at ddau Ddigwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol (NRI) newydd: oedi wrth atgyfeirio i ymchwilio i ganfyddiad amheus ar belydr-X o'r frest, a drodd allan i fod yn garsinoma'r ysgyfaint, a gwall wrth roi plasma a ohiriodd gyfnewidiad plasma anghydnaws, gyda'r claf yn derbyn plasma cydnaws yn hytrach na phlasma anghydnaws.<br><br>Nododd SM fod gan WKN 6 risg ar y Gofrestr Risgiau Comisiynu ar hyn o bryd. O fewn y cyfnod adrodd hwn, ychwanegwyd 1 risg ychwanegol at Gofrestr Risgiau WKN:<br>• WKN 22 - Rheoli CPE/CPO ar gyfer cleifion arennau yng Nghymru. Roedd graddfa'r risg ar sgôr risg o 9 ar hyn o bryd.<br><br>O'r 6 risg, mae un dros 15 oed ac felly mae'n eistedd ar Gofrestr Risg Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBCGC) Cyf 65 - Capasiti Dialysis Arennau ledled Cymru. Mae'r risg hon wedi'i chynnwys yng nghyflwyniad Cynllun Sylfaen CBCGC ar gyfer 2025/2026 sy'n cwmpasu twf gan gynnwys y Darparwyr Gwasanaeth Annibynnol (ISP).<br><br>Nodwyd y rheolaethau a oedd ar waith, gan gynnwys y gwerth mewn cyllid gofal iechyd, sydd wedi'i sicrhau i gynyddu nifer y cleifion trawsblaniad a dialysis cartref. Mae hyn yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd rhanbarthol a dangosfwrdd perfformiad comisiynu WKN.<br><br>Cynghorodd SM a Rhodri Pyart (RP) ynghylch yr heriau i ddod i gytundeb ar y gwaith o ran organebau sy'n cynhyrchu carbapenemase (CPO) ac Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu carbapenemase (CPE) ar y cyd â'r Rhaglen Heintiau a Gwrthiant Gwrthficrobaidd sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HARP), Iechyd y Cyhoedd, a safoni canllawiau. Nododd RP fod cyfarfod ar y gweill gyda'r gobaith o osod datrysiad safonol cyffredin ledled Cymru. |

CADARNHAOL

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Tynnodd RP sylw at y data helaeth sydd ar gael i'r adran arennol, gyda'r nod o fanteisio ar atebion TG i nodi profion CPO a dadansoddi pa mor aml ceir canlyniadau positif. Trafodwyd pwysigrwydd ymgysylltu â chleifion, gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig ag ynysu cleifion mewn unedau dialysis, a phwysleisio bod angen eu cydymffurfiaeth a'u cyfranogiad gweithredol yn y broses.<br><br>Cododd Mandy Rayani (MR) gwestiwn ynghylch prydlondeb adrodd am ddigwyddiadau i'r CBCGC. Rhoddodd Carole Bell (CB) sicrwydd mai digwyddiad ynysig oedd hwn a bod y darparwr wedi cael ei atgoffa o drefniadau a therfynau amser y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) ar gyfer adrodd.<br><br>Holodd Philip Kloer (PK) am y gwaith ar y gwerth mewn ariannu gofal iechyd ac roedd ganddo ddiddordeb yn yr amrywiad mewn cyfraddau trawsblaniadau a dialysis cartref ledled Cymru. Esboniodd RP y ffactorau sy'n cyfrannu at yr amrywiad fel amharodrwydd cleifion gwledig i gymryd rhan mewn prosesau trawsblannu oherwydd pellteroedd teithio a ffactorau eraill fel ethnigrwydd ac amddifadedd.<br><br>Tynnodd RP sylw at gynnydd cadarnhaol mewn prosesau ar gyfer gwaith trawsblannu, trawsblaniadau rhagataliol, a thrawsblaniadau gan roddwyr byw, gan nodi bod Cymru yn arwain mewn rhai agweddau. Cydnabuwyd bod angen gwaith pellach.<br><br>Pwysleisiodd RM gost-effeithiolrwydd a manteision ansawdd bywyd trawsblaniadau a therapïau cartref, gan gynnig cyflwyno data ar hyn yn y dyfodol.<br><br>Mynegodd PK ddiddordeb mewn ecwiti. Cytunodd RP i feincnodi ledled y DU ac amrywio ledled Cymru ar gyfer trawsblaniadau a dialysis cartref, gan nodi rôl byrddau iechyd a phartneriaid eraill.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** RP i gyflwyno cost-effeithiolrwydd a manteision ansawdd bywyd trawsblaniadau a therapïau cartref, gan gynnwys meincnodi ledled y DU ac amrywiadau ledled Cymru ar gyfer trawsblaniadau a dialysis cartref, mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>Penderfynodd yr aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad. |
| QSO25/044 | **3.1 Stori'r Claf**<br>Cyflwynodd Liam Williams (LW), Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), stori'r claf ac adroddodd brofiad trasig y teulu Maxwell. |

CADARNHAOL

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Arhosodd y claf, menyw oedd angen sylw meddygol brys, chwe awr am ambiwlans. Er gwaethaf nifer o alwadau a dirywiad gweladwy, cyrhaeddodd yr ambiwlans yn rhy hwyr. Bu farw'r claf, gan adael y teulu mewn trallod, nid yn unig oherwydd y golled ond hefyd yn sgil y profiadau trawmatig a ddaeth wedyn, gan gynnwys post-mortem a'u rhwystrodd rhag ffarwelio'n iawn. Mynegodd ei mab, a berfformiodd adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) cyn i'r ambiwlans gyrraedd, drawma emosiynol dwfn ac roedd wedi colli ymddiriedaeth yn y gwasanaethau brys. Pwysleisiodd yr effaith driphlyg: ar y teulu, ar y staff ambiwlans, ar hyder y cyhoedd a'r angen am newid systemig i atal trasiedïau tebyg ac adfer hyder y cyhoedd.<br><br>Cyffyrddodd y stori'n ddwfn â'r pwyllgor, yn enwedig y Cadeirydd, a gydnabu'r pwysau emosiynol a phwysigrwydd dysgu o brofiadau o'r fath. Cytunodd yr aelodau i ddiolch i'r teulu am rannu eu stori a chydnabuwyd yr erydiad yn ymddiriedaeth y cyhoedd a'r angen i'w hailadeiladu trwy dryloywder, ymatebolrwydd a chanlyniadau gwell. Tynnwyd sylw at gynlluniau oedd ar y gweill i wella mecanweithiau adborth cleifion, gan gynnwys allgymorth drwy negeseuon testun a chyflwyniadau fideo.<br><br>Nododd Andy Swinburn (AS), Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, fod yr oedi wedi'i briodoli i broblemau systemig, gan gynnwys oedi wrth drosglwyddo gofal rhwng shifftiau ambiwlansys a'r galw mawr amdanynt. Tynnodd Ross Whitehead (RW) sylw at y ffaith bod cyfran sylweddol o adnoddau ambiwlans yn cael eu defnyddio ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys, sy'n achosi pwysau ar y system.<br><br>Nodwyd y byddai fframwaith perfformiad newydd yn cael ei gyflwyno o 1 Gorffennaf 2025 i flaenoriaethu achosion lle mae bywyd mewn perygl, ehangu sgrinio clinigol cyflym a desgiau cynllunio gofal. Bydd hyn yn gwella'r broses brysbennu ac yn golygu bod llai o adnoddau'n cael eu hanfon allan yn ddiangen. Bydd buddsoddiad pellach mewn offer digidol a chymorth clinigol o bell yn helpu i reoli'r galw'n well.<br><br>Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi gweithredu TRiM (Rheoli Risg Trawma) a chefnogaeth seicolegol i staff sy'n profi digwyddiadau trawmatig ac roedd ymdrechion yn parhau i leihau absenoldeb oherwydd salwch a gwella cadernid y gweithlu.<br><br>Pwysleisiodd Carole Bell (CB) bod profiad y teulu yn cael ei gymryd o ddifrif ac awgrymodd werthuso'r newidiadau a wnaed a'r effaith y mae'r newidiadau'n ei chael ar deuluoedd. Gofynnodd CB sut y byddai hyn yn cael ei gofnodi. |

CADARNHAOL

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Atebodd LW nad oedd graddfa'r adborth yn cael ei chasglu ar hyn o bryd a dim ond pan fyddai cleifion yn cysylltu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn uniongyrchol y byddai'n dod i law, er bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn mynd ati'n weithredol i geisio adborth drwy fforymau a grwpiau. Dangosai hyn bod angen pwyso am fod yn fwy cadarn wrth rannu data a dadansoddi lefel llwybrau er mwyn bwydo gwelliannau ar draws y system.<br><br>Cytunodd yr aelodau y byddai stori teulu Maxwell yn cael ei defnyddio fel catalydd ar gyfer newid, gydag ymrwymiad i ddilyn hyn a dangos gwelliannau pendant.<br><br>Penderfynodd yr aelodau:<br>• **Nodi** stori'r claf. |
| QSO25/045 | **3.2 Archwiliad Dwfn: Ambiwlans**<br>Rhoddodd Ross Whitehead (RW) a chydweithwyr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyflwyniad Archwiliad Dwfn i Sicrwydd Ansawdd i'r aelodau. Rhoddodd RW drosolwg o drefniadau sicrwydd mewnol ac allanol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a gwnaeth sylw fod y dull comisiynu i'r dyfodol yn cynnwys dull comisiynu mwy cydweithredol. Tynnodd RW sylw at y 15 safon gofal ar draws y llwybr claf 5 cam sydd â 6 gofyniad craidd yn sail i'r ddarpariaeth gwasanaethau ar draws pob cam. Roedd sleidiau'r cyflwyniad yn cynnwys y canlynol;<br>1. **Llywodraethu**– Systemau effeithiol i sicrhau gofal o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar y claf<br>2. **Profiad a Bodlonrwydd Cleifion**– Mecanweithiau ar gyfer adborth, cwynion, a dysgu o ddigwyddiadau<br>3. **Tegwch**– Mynediad cyfartal at wasanaethau waeth ym mha leoliad.<br>4. **Gofal Clinigol**– Gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn fesuradwy, ac yn cael ei ddarparu'n ddiogel gan staff cymwys<br>5. **Staffio**– Gweithlu digonol, â chefnogaeth dda, a sgiliau priodol<br>6. **Diogelwch**– Rhaid i wasanaethau amddiffyn cleifion a'r cyhoedd rhag niwed y gellir ei osgoi.<br><br>Nododd yr aelodau fod sicrwydd ansawdd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cael ei lywodraethu drwy ddull llywodraethu integredig. Mae'r Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol (CQGG) yn triongli themâu digwyddiadau, profiad cleifion, diogelu, a chydymffurfiaeth reoleiddiol. Mae is-grwpiau yn rhoi gwybodaeth i CQGG ac mae'n adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r strwythur yn sicrhau bod risgiau ansawdd yn |

CADARNHAOL

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | cael eu nodi'n gynnar, bod camau gweithredu'n cael eu dilyn, a bod dysgu strategol yn cael ei ymgorffori.<br><br>Nodwyd y risgiau allweddol a nodwyd gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel a ganlyn:<br>• Oedi wrth Drosglwyddo Gofal mewn Adrannau Argyfwng<br>• Cyfyngiadau ar y Gweithlu – Defnydd, absenoldeb, a chael eu tynnu allan<br>• Heriau Seilwaith Digidol – Yn effeithio ar effeithlonrwydd gweithredol<br>• Cynllun Ansawdd Strategol a System Rheoli Ansawdd – Sicrhau gwelliant parhaus.<br><br>Tynnwyd sylw at nifer o fentrau sy'n edrych i'r dyfodol y byddai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn eu dilyn:<br>• Grŵp Ymgynghori Clinigol (CAG) – Yn rhoi cymorth i gyfateb â pholisi cenedlaethol, ansawdd, moeseg ac iechyd y boblogaeth<br>• Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth – Llywio penderfyniadau buddsoddi a gwella canlyniadau<br>• Arloesi Digidol – Manteisio ar dechnoleg deallusrwydd artiffisial a ffôn clyfar ar gyfer gofal o bell a chyn-ysbyty<br>• Galluogi System Gyfan – Defnyddio 111 Cymru a seilwaith clinigol i gefnogi nodau ehangach GIG Cymru.<br><br>Canfu PK fod y cyflwyniad yn addysgiadol a mynegodd ddiddordeb mewn archwilio arloesedd ymhellach, gan gydnabod na fydd parhau â'r arferion presennol yn datrys y problemau cyfredol.<br><br>Nododd RW fod cynhyrchiant cyffredinol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'i gyfraniad at y system wedi cael eu trafod yng nghyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor (JC). Mae gwaith ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cael ei drefnu gan y bydd cefnogaeth a chytundeb rhanbarthol yn helpu ac yn cyflymu'r sgwrs ledled Cymru.<br><br>Nododd RW fod adroddiad y Grŵp Ymgynghori Gweinidogol a newidiadau Gweithrediaeth y GIG, ynghyd â'r Rhaglen Chwe Nod, yn helpu i egluro rolau a chyfrifoldebau. Roedd hyn yn creu cyfleoedd i gyfeirio cleifion at ofal priodol a throsi gofal argyfwng neu frys yn ofal wedi'i gynllunio.<br><br>Gofynnodd Shameem Nawaz (SN) a oedd y gwaith ymgysylltu â chleifion ar gyfer 999 ac 111. Cytunodd LW i rannu eu hadroddiad blynyddol am gynnwys y gymuned gyda'u cydweithwyr gan fod hyn yn rhoi syniad o'r gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn. |

CADARNHAOL

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | **CAM GWEITHREDU:** LW i rannu Adroddiad Blynyddol Cyfranogiad y Gymuned Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br><br>Penderfynodd yr aelodau:<br>• I **drafod** a **nodi'r** archwiliad dwfn i'r Gwasanaeth Ambiwlans. |
| QSO25/046 | **4.1 Cofrestr Risg y Cyd-bwyllgor Comisiynu – Risgiau a Neilltuir i'r Is-Bwyllgor QSO**<br>Derbyniodd yr aelodau'r gofrestr risg ar 30 Ebrill 2025 a thynnodd Jacqui Maunder (JM) sylw at y ffaith bod 13 risg uchel i gyd, a bod 7 ohonynt wedi'u neilltuo i'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau at ddibenion monitro a chraffu. Roedd y diweddariadau risg allweddol yn cynnwys:<br>• **78 Capasiti Ambiwlans** - Cynhaliwyd ymchwil dwfn; mae'n parhau i fod y risg sy'n sgorio uchaf ar 25<br>• **79 Dyraniad aortig Math A** - Parhau i gydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe<br>• **65 Dialysis Arennol** - Wedi'i gyflwyno i IMTP 2025/26; yn aros am ganlyniad<br>• **55 Gweithlu Newyddenedigol** - Wedi'i adolygu gan dîm comisiynu Menywod a Phlant; cyfarfod uwchgyfeirio Lefel 3 wedi'i gynnal ym mis Mai 2025<br>• **56 Rheoli Heintiau Newyddenedigol** - Wedi'i adolygu gan dîm comisiynu Menywod a Phlant; disgwylir diweddariad pellach<br>• **82 Niwro-adsefydlu yn BIPBA** – Cynyddwyd y risg o 12 i 16, cydweithrediad yn parhau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe<br>• **83 Gwasanaeth Llawfeddygol Orthopedig Paediatrig** – Risg newydd wedi'i hychwanegu, gwasanaeth dan drafodaeth fewnol.<br><br>Nododd JM fod problem amseru bob amser gydag adrodd ar risgiau ac nad oedd hyn yn anarferol o fewn CBC GIG Cymru a byddai'n rhoi adborth i'r swyddogion gweithredol i gael geiriad mwy clir a chyson yn yr adroddiadau.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Gwella amseriad adrodd ar risg i gyd-fynd â diweddariadau'r gyfarwyddiaeth.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Adolygu ac adnewyddu cofnodion y gofrestr risg i sicrhau bod camau gweithredu wedi'u cwblhau yn cael eu hailddosbarthu fel rheolaethau. Sicrhau fod camau gweithredu wedi'u cysylltu'n glir â lleihau risg a bod y geiriad yn gyson ac yn ystyrlon. |

CADARNHAOL

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Penderfynodd yr aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad,<br>• **Ystyried** a **chraffu** ar y risgiau a neilltuwyd ar ran CBCGC; a<br>• Rhoi **sicrwydd** i'r CBC ar reoli'r risgiau'n effeithiol. |
| QSO25/047 | **5.1 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol**<br>Derbyniwyd adroddiad ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol. Adroddodd Melanie Wilkey (MW) ar wasanaethau arbenigol amrywiol, gan amlygu:<br>• Uwch-gyfeirio yn parhau o ran materion newyddenedigol; mae paediatreg wedi llacio<br>• Problem cyflenwi PET-CT wedi'i datrys<br>• Adolygiad o wasanaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar y gweill<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ymestyn oriau thrombectomi o 1 Gorffennaf<br>• Pryderon a godwyd ynghylch oedi wrth recriwtio ar gyfer y gwasanaeth mewnblaniadau clywedol.<br><br>Penderfynodd yr aelodau:<br>• **Nodi'r** diweddariadau comisiynu arbenigol sy'n cael eu crynhoi yn yr adroddiad hwn, a<br>• **Nodi** crynodeb o'r risgiau arbenigol a ddisgrifiwyd a'u huwchgyfeirio yn ôl yr angen. |
| QSO25/048 | **5.2 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans ac 111**<br>Derbyniwyd adroddiad ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111. Cyflwynodd RW yr adroddiad a thynnwyd sylw at y dangosfwrdd ansawdd a diogelwch, sy'n cynnwys adroddiadau lefel uchel ar feysydd ansawdd.<br><br>Penderfynodd yr aelodau:<br>• **Nodi'r** cynnwys; a<br>• **Derbyn** yr adroddiad fel sicrwydd. |
| QSO25/049 | **5.3 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed**<br>Derbyniwyd adroddiad ar gyfer Comisiynu Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO) yn ymwneud â phortffolio Tîm Comisiynu Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Bregus (MHLDVG) ar Fawrth 31, 2025. |

CADARNHAOL

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Cyflwynodd Adrian Clarke (AC) yr adroddiad a thynnu sylw at y canlynol:<br>• Diweddariad ar wasanaethau rhywedd i baratoi ar gyfer y QSO nesaf<br>• Adolygiad amenedigol wedi'i rannu<br>• Pryderon ynghylch darparwr St Andrews; sicrhau ansawdd yn parhau<br>• Trafodwyd trefniadau meddiannaeth a chomisiynu Clinig Caswell.<br><br>Gofynnodd PK am eglurhad ynghylch cyfrifoldebau'r comisiynydd yn erbyn cyfrifoldebau'r bwrdd iechyd. Cadarnhaodd AC a CB fod mesurau iechyd meddwl mewn lle, ac felly'r Byrddau Iechyd oedd wedi eu henwi fel cydlynwyr y lleoliadau hynny a enwyd. Dylent fod â goruchwyliaeth dros weithrediad y cydlynydd gofal a ddirprwywyd gan gomisiynwyr.<br><br>Byddai AC yn hapus i rannu sleidiau am y fframwaith a bydd yn eu rhannu mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Ychwanegu eitem am y Fframwaith Iechyd Meddwl at agenda yn y dyfodol ac AC i'w gyflwyno.<br><br>Penderfynodd yr aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a<br>• **Derbyn** yr adroddiad fel sicrwydd. |
| QSO25/050 | **5.4 Adroddiad Digwyddiadau a Phryderon**<br>Adroddiad yn amlinellu crynodeb o bryderon a digwyddiadau a adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor gan ddarparwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd, yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill a Mai 2025 (ac eithrio'r Gwasanaeth Ambiwlans ac 111 sy'n cwmpasu'r cyfnod Chwefror/Mawrth yn unol â chyfnod adrodd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru). Mae adroddiad y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys hefyd yn cael ei gyflwyno i grŵp Ansawdd a Diogelwch BIPBA.<br><br>Mae gwaith parhaus wedi cael ei drafod o'r blaen ond tynnodd CB sylw at y canlynol:<br>• Roedd adran newydd yn yr adroddiad a oedd yn cynnwys crynodeb o grynodeb wythnosol Gweithrediaeth y GIG i gleifion<br>• Cafodd 5 digwyddiad eu cau o fewn y cyfnod adrodd hwn. Mae dysgu wedi'i rannu ar draws darparwyr a gwasanaethau tebyg<br>• Cwyn yr Ombwdsmon heb ei chadarnhau<br>• Pryder diogelu wedi'i ddatrys.<br><br>Penderfynodd yr aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a<br>• **Derbyn** yr adroddiad er sicrwydd. |

CADARNHAOL

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | |
| QSO25/051 | **5.5 Adroddiad y Rheoleiddiwr (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) / Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)**<br>Rhoddwyd diweddariad ar weithgaredd rheoleiddio. Nododd yr aelodau'r diweddariadau gan Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) a'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ar wahanol wasanaethau a nodwyd y cydweithio parhaus ag Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) i wella prosesau adrodd a sicrwydd.<br><br>Penderfynodd yr aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a<br>• **Derbyn** yr adroddiad er sicrwydd. |
| QSO25/052 | **6.1 Blaengynllun Busnes 2025-2026**<br>Nododd yr aelodau'r blaengynllun busnes. |
| QSO25/053 | **7.1 Unrhyw Fater Arall**<br>Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod. |
| QSO25/054 | **7.2 Eitemau i'w gohirio/eu huwchgyfeirio i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu / Is-bwyllgorau eraill ac adolygiad o unrhyw gamau gweithredu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol**<br>Roedd yr aelodau o'r farn y dylid tynnu sylw at y materion canlynol yn yr adroddiad cryno ar gyfer y Cyd-bwyllgor:<br>• Sylwadau a wnaed am yr oedi mewn amser yng nghyswllt y gofrestr risg<br>• Gwrando a dysgu gan stori'r claf am yr ambiwlans ac archwiliad dwfn i hyn, gyda chynnig i fynd â hyn ar wahân at y Cyd-bwyllgor. |
| QSO25/055 | **7.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Daeth y cyfarfod i ben am 16:07.<br>Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 04 Awst 2025. |

CADARNHAOL